**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 9 Rhagfyr 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | B Hopkins | O G James |
| L R Jones | M A Langstone | M B Lewis |
| S Pritchard | D W W Thomas | |

Hefyd yn Bresennol: Y Cynghorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet - Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Damien Beech | Pennaeth Uned y Cyfnod Cynradd |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Rob Davies | Pennaeth Uned y Cyfnod Uwchradd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Chris Rees | Arweinydd Dysgu Cymhwysedd Digidol |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Neb.

---

## 4 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgorau Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 6 Parhad Dysgu.

Cyflwynodd Rob Davies, Chris Rees a Helen Morgan-Rees adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg a chefndir manwl a chynhwysfawr i'r aelodau ar sail y rhaglen parhad dysgu, gan gynnwys dysgu cyfunol yr oedd yr awdurdod wedi'i ddatblygu ers y cyfyngiadau symud cenedlaethol cychwynnol ym mis Mawrth.

Roeddent yn manylu ar y pwyslais arbennig ar faterion a nodwyd ynghylch mynediad at ddyfeisiau digidol a chysylltedd, ac yn amlinellu'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd (gydag arfer gorau), dysgu proffesiynol i ymarferwyr a chlywed barn dysgwyr a rhieni sydd wedi’u cynnal

Dywedasant fod yr adran wedi cydweithio'n agos ac yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd yn ystod cyfnod pandemig COVID-19 wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau addysg i bobl ifanc ledled Abertawe.

Nodwyd yn ystod y cyfyngiadau symud cychwynnol fod darpariaeth ddysgu gyfunol o wersi ar-lein a gwaith papur, a ddosbarthwyd gan ysgolion, wedi darparu'r rhan fwyaf o gyfleoedd dysgu i ddisgyblion. Disodlwyd y rhain yn bennaf gan wersi wyneb yn wyneb pan ddychwelodd yr ysgol ym mis Medi, ond oherwydd achosion o hunanynysu staff/disgyblion mewn ysgolion, mae dysgu cyfunol yn parhau.

Cafodd y materion sy'n ymwneud â diffyg dyfeisiau sydd ar gael mewn aelwydydd, yn enwedig yn ystod cyfnodau o hunanynysu teuluol, gwahanol faterion a phroblemau cysylltedd a rhesymau amrywiol ynghylch pobl ifanc yn cael mynediad i "fan tawel" i ymgymryd â'u gwaith gartref eu hamlinellu a'u trafod.

Amlinellwyd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu ail rownd o arian grant HWB sydd wedi galluogi'r awdurdod i brynu nifer mawr o ddyfeisiau gan gynnwys iPad, pc/gliniaduron, Chromebooks a dyfeisiau Mifi (donglau), mae'r rhain wedi'u dosbarthu i'r bobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth digidol arnynt. Mae'r cyflenwad a dosbarthiad hwn o offer yn parhau i fynd rhagddo diolch i gefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd yr heriau logistaidd enfawr o baratoi a dosbarthu'r dyfeisiau i bobl ifanc eu hamlinellu a'u trafod.

Amlinellwyd y lefelau amrywiol o ymgysylltu wrth ddysgu gartref, cymorth ac agweddau rhieni a gallu rhieni i gefnogi dysgu gartref fel maes anodd iawn i'w fonitro.

Defnyddiwyd arian grant HWB Llywodraeth Cymru hefyd i wella'r rhwydweithiau a chysylltedd mewn ysgolion i alluogi athrawon a staff cefnogi i gyflwyno gwersi yn well yn yr ysgol ac ar-lein.

Amlinellwyd bod canllawiau dysgu cyfunol wedi'u cynhyrchu a'u dosbarthu i ysgolion.

O ran dysgu cyfunol, mae ysgolion wedi defnyddio ystod eang o ddulliau sy'n gweddu orau i anghenion eu disgyblion, gyda rhai ysgolion yn canolbwyntio ar ymagweddau anghydamseredig i liniaru materion posib gyda mynediad at offer gartref, wrth i ysgolion eraill fabwysiadu dulliau cydamseredig i annog mwy o strwythur a chynnwys disgyblion wrth iddynt fod gartref.

Gellir recordio gwersi byw fel y gall disgyblion eu gwylio yn nes ymlaen os oes angen. Mae rhai wedi mabwysiadu cymysgedd o ymagweddau anghydamseredig

a chydamseredig. Mae bron pob ysgol wedi nodi eu bod yn dal i ddefnyddio adnoddau papur i gefnogi dysgwyr lle bo angen.

Mae'r adborth ar ddarpariaeth dysgu gartref ar-lein gan ddysgwyr a rhieni yn dangos bod gwersi byw rheolaidd ar adegau strwythuredig yn well ar gyfer y mwyafrif helaeth o ddisgyblion, er bod yn well gan rai disgyblion hyblygrwydd gwersi wedi'u recordio ac amlinellwyd hefyd y gallu i'w gweld a'u hadolygu ar wahanol adegau, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn. Adroddwyd am y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu "haddysgu gartref" o ganlyniad i'r pandemig.

Amlinellwyd y ffaith bod athrawon wedi bod yn dysgu "yn y swydd", ac yn addasu ac esblygu eu dulliau addysgu ar-lein drwy ymarfer, profiad ac adborth - roedd hyn yn ymwneud â gwersi byw a gwersi wedi'u recordio.

Codwyd y materion sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o ehangu'r bwlch o amgylch disgyblion difreintiedig o ganlyniad i'r pandemig, nododd swyddogion fod cyllid diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn wedi'i dargedu'n benodol a gallent goladu gwybodaeth am hyn a sut yr oedd ysgolion wedi gwario'r cyllid a ddyrannwyd iddynt a darparu gwybodaeth ac adborth ar hyn yn y dyfodol.

Amlinellwyd a chanmolwyd y gefnogaeth a'r cymorth a roddwyd o fewn y proffesiwn addysgu i gydweithwyr yn ystod y pandemig i wella sgiliau a chefnogi cydweithwyr. Ategwyd hyn gan gymorth a chyngor gan yr adran drwy hyfforddiant, cyngor a gweminarau ar-lein.

Roedd y Cynghorydd J A Raynor, Aelod y Cabinet dros Addysg, Dysgu a Sgiliau yn cefnogi'r ymagwedd a gymerwyd gan yr adran a chanmolodd y gwaith a wnaed gan staff mewn ysgolion a swyddogion yr adran yn ystod y pandemig.

Trafododd hi ac aelodau'r pwyllgor y materion a godwyd uchod a gofynnodd nifer o gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn unol â hynny.

Cefnogodd a chymeradwyodd Cadeirydd ac Aelodau'r pwyllgor waith yr holl staff ysgolion yn llawn yn ystod y pandemig a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Dros Dro gyfleu eu diolch a'u gwerthfawrogiad i'r holl athrawon, y cynorthwywyr dysgu a staff eraill yn yr ysgol yn yr e-bost adrannol nesaf i bob ysgol i adlewyrchu eu gwerthfawrogiad o'r ymdrechion rhyfeddol yn ystod y misoedd diwethaf.

Nododd y Cadeirydd y dylid osgoi rhoi pwysau a straen diangen ar ysgolion i ofyn iddynt fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu Polisi a gofyn iddynt am eu barn a'u hadborth ar effaith y pandemig dros y misoedd nesaf, gallai'r cyfarfod nesaf ystyried cymryd adborth gan ymgynghorwyr herio ar eu barn ar y materion sy'n cael eu hwynebu ac yr ymdrinnir â hwy gan ysgolion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Datblygu Polisi yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd** bydd y cyfarfod nesaf yn derbyn diweddariad/adborth llafar gan Ymgynghorwyr Herio ynghylch y materion sy'n wynebu ysgolion sy'n gysylltiedig â pandemig COVID-19.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.18 pm

**Cadeirydd**